

Negodiadau ynghylch ymadawiad y DU â'r UE

Adroddiad Monitro

10 Rhagfyr 2020



Y Senedd ^a

BREXIT

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/ymchwil

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 7571**
E-bost: **lucy.valsamidis@Senedd.Cymru**
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

© **Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2020**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Negodiadau ynghylch ymadawiad y DU â'r UE

Adroddiad Monitro

10 Rhagfyr 2020

Awduron:
Lucy Valsamidis, Sara Moran a Rhun Davies



Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	1
1.1 Crynodeb o'r datblygiadau.....	1
2. Datblygiadau'r DU a'r UE	3
2. 1. Aelod-wladwriaethau UE27	3
2. 2. Llywydd Comisiwn yr UE: y datganiadau diweddaraf	4
2. 3. Gweithredu'r Cytundeb Ymadael	4
3. Datblygiadau ar lefel y DU	7
3. 1. Bil Marchnad Fewnol y DU.....	7
3. 2. Deddfwriaeth arall.....	7
3. 3. Cysylltiadau rhynglywodraethol a fframweithiau cyffredin.....	8
3. 4. Parodrwydd	9
3. 5. Trafodaethau masnach ryngwladol.....	10
3. 6. Cyllid.....	11
3. 7. Y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.....	11

4. Datblygiadau yng Nghymru12

4. 1. Bil Marchnad Fewnol y DU12

4. 2. Trafodaethau'r UE.....12

4. 3. Trafodaethau masnach ryngwladol12

4. 4. Parodrwydd.....13

4. 5. Cyllid.....15

4. 6. Deddfwriaeth.....15

1. Cyflwyniad

1.1. Crynodeb o'r datblygiadau

Credir bod y negodiadau ynghylch **perthynas y DU a'r UE yn y dyfodol** ar eu camau olaf, a disgwylir canlyniad yn y dyddiau nesaf. Mae tri maes o wahaniaeth yn parhau - sefyllfa gydradd, pysgodfeydd a llywodraethiant, sy'n cael eu disgrifio fel rhai 'hollbwysig' gan Brif Weinidog y DU, ac Ursula von der Leyen, Llywydd Comisiwn yr UE. Yn dilyn cyfres o drafodaethau rhwng y ddau arweinydd, gan gynnwys cyfarfod wyneb yn wyneb ym Mrwsel ar 9 Rhagfyr, cytunodd y ddau fod cryn bellter rhwng eu safbwyntiau o hyd. Fe wnaethant gytuno hefyd y dylai'r negodiadau barhau tan benwythnos 12-13 Rhagfyr, pan fyddant yn dod i benderfyniad. Mae safbwyntiau a blaenoriaethau Aelod-wladwriaethau unigol yr UE hefyd wedi dod i'r amlwg yn yr wythnosau diwethaf, a cheir crynodeb ohonynt yn yr adroddiad hwn. Yn y cyfamser, mae'r Cytundeb Ymadael yn parhau i gael ei weithredu, gyda chyfarfod rhwng cyd-gadeiryddion Cyd-bwyllgor y DU-UE, a gynhaliwyd hefyd ar 7 Rhagfyr. Mae'r partïon wedi dod i gytundeb mewn egwyddor ar bob mater, gan gynnwys Protocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon, ar ôl i'r UE gychwyn achos torri cytundeb yn erbyn y DU.

Ar lefel y DU, pleidleisiodd Tŷ'r Cyffredin i fewnosod eto gymalau dadleuol ar ddatganoli yn y Bil Marchnad Fewnol ac fe wnaeth yr yn ôl ac ymlaen barhau. Cytunodd Llywodraeth y DU i ddileu cymalau dadleuol ar Brotocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Adroddwyd bod Llywodraeth y DU yn ystyried Bil ynghylch perthynas yn y dyfodol i weithredu unrhyw gytundeb gyda'r UE. Parhaodd deddfwriaeth Brexit i fynd drwy'r Senedd, gyda'r Bil Pysgodfeydd yn cael Cydsyniad Brenhinol. Cyflwynwyd dau fframwaith cyffredin dros dro arall i graffu arnynt. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau ar gyfer ei Chronfa Ffyniant Cyffredin yn yr adolygiad o wariant a dywedodd y byddai mwy o fanylion yn dilyn yn y gwanwyn. Mynegodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus bryderon nad oedd ffiniau a busnesau yn barod ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Cyhoeddodd y Llywodraeth ganllawiau ar fasnach i mewn ac allan o Ogledd Iwerddon ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, ond ni chwblhawyd yr holl ganllawiau. Parhaodd Llywodraeth y DU i gario cytundebau masnach drosodd ar gyfer diwedd y cyfnod pontio a chyhoeddodd gynlluniau tryloywder a chraffu ar gyfer cytundebau masnach rydd yn y dyfodol.

Yng Nghymru, argymhellodd Llywodraeth Cymru na ddylai'r Senedd gydsynio i'r Bil Marchnad Fewnol a phleidleisiodd y Senedd i wrthod rhoi cydsyniad. Dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd ei fod yn parhau i alw am gytundeb

rhwng y DU a'r UE. Nododd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth gynlluniau ar gyfer rheoli tarfu ym mhorthladd Caerdybi ym mis Ionawr. Ystyriwyd safleoedd yn Warrington a Birmingham ar gyfer gwiriadau dros dro ar gerbydau sy'n cyrraedd Caerdybi. Adroddodd Llywodraeth Cymru ar y cytundeb rhwng y DU a Japan a dywedodd y byddai'n cefnogi busnesau yr effeithir arnynt os na fydd y DU yn cario cytundebau masnach drosodd erbyn diwedd y flwyddyn. Galwodd Llywodraeth Cymru ar Lywodraeth y DU i ddarparu cyllid ar gyfer ei Chronfa Buddsoddi Rhanbarthol arfaethedig.

2. Datblygiadau'r DU a'r UE

Credir bod y negodiadau ar eu cam olaf, a **disgwylir canlyniad** ar ddiwedd penwythnos 12-13 Rhagfyr. Mae tri maes o wahaniaeth yn parhau - sefyllfa gydradd, pysgodfeydd a llywodraethiant.

Ar 4 Rhagfyr, fe wnaeth y ddau Brif Negodwr drydar **datganiad ar y cyd** a oedd yn esbonio:

After one week of intense negotiations in London, (...) we agreed today that the conditions for an agreement are not met, due to significant divergences on level playing field, governance and fisheries.

We agreed to pause the talks in order to brief our Principals on the state of play of the negotiations. President von der Leyen and Prime Minister Johnson will discuss the state of play tomorrow afternoon.

Ar 5 Rhagfyr, cyhoeddodd y ddau arweinydd **ddatganiad ar y cyd**, gan nodi:

[W]e welcomed the fact that progress has been achieved in many areas. Nevertheless, significant differences remain on three critical issues: level playing field, governance and fisheries. Both sides underlined that no agreement is feasible if these issues are not resolved.

Whilst recognising the seriousness of these differences, we agreed that a further effort should be undertaken by our negotiating teams to assess whether they can be resolved.

We are therefore instructing our chief negotiators to reconvene tomorrow in Brussels.

We will speak again on Monday evening.

Y nos Lun ganlynol, 7 Rhagfyr, fe wnaeth **y ddau arweinydd gytuno** nad oedd yr amodau ar gyfer cwblhau cytundeb wedi cyrraedd a chadarnhawyd eu bod wedi gofyn am drosolwg o'r gwahaniaethau sy'n weddill gan y Prif Drafodwyr cyn cyfarfod wyneb yn wyneb ym Mrwsel.

Yn y cyfarfod wyneb yn wyneb ar 9 Rhagfyr, cytunodd y ddau arweinydd fod cryn bellter rhwng eu safbwyntiau o hyd ac y dylai'r negodiadau barhau tan benwythnos 12-13 Rhagfyr, pan gaiff penderfyniad ei wneud.

2.1. Aelod-wladwriaethau UE27

Yn y cyfamser, mae adroddiadau'n awgrymu bod gwahaniaethau rhwng yr UE27 wedi dod i'r amlwg, **yn dilyn adroddiadau** bod Ffrainc yn barod i roi feto ar gytundeb, tra bod yr Almaen yn ailadrodd ei bwriad i negodi tan y funud olaf. Cafodd Gweinidog Materion Tramor Iwerddon, Simon Coveney, ei ddyfynnu

gan y Guardian yn dweud bod bargaen yn fwy tebygol na pheidio, a **dywedodd Euronews** fod Sbaen yn canolbwyntio ar gadw ffin agored â Gibraltar.

Mae Aelod-wladwriaethau'r UE **hefyd wedi gofyn** i gael golwg ar unrhyw gytundeb drafft cyn i Michel Barnier, Prif Negodwr yr UE, gytuno arno. Yn ôl **Politico**, mae Mr Barnier wedi dweud wrth Lysgenhadon yr UE y bydd ffocws yr UE yn symud i gynllunio wrth gefn yr UE, os na fydd y negodiadau'n cynnig eglurder pellach. Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd **gynigion wrth gefn** ar 10 Rhagfyr.

Bydd yr arweinwyr yn cwrdd nesaf yng **Nghyfarfod Cyngor yr UE** ar 10-11 Rhagfyr, er nad yw materion y DU-UE ar yr agenda swyddogol.

2.2. Llywydd Comisiwn yr UE: y datganiadau diweddaraf

Ar 2 Rhagfyr, cafodd Ursula von der Leyen, Llywydd Comisiwn yr UE, **ei dyfynnu yn y Guardian** yn dweud 'we want an agreement, but not at any price. We are well prepared for both scenarios so we will see in the next days how things turn out.'

Ar 25 Tachwedd, fe wnaeth hi **annerch** Senedd Ewrop, lle nododd:

I cannot tell you today, if in the end there will be a deal.

There has been genuine progress on a number of important questions: on law enforcement and judicial cooperation; on social security coordination. And also on goods, services and transport we now have the outline of a possible final text. In these areas there are still some important issues to agree, but they should be manageable.

However, there are still three issues that can make the difference between a deal and no deal. (...) Significant difficulties remain on the question how we can secure – now and over time – our common high standards on labour and social rights, the environment, climate change and tax transparency.

Yn y cyfryngau Ewropeaidd, adroddwyd bod yr anerchiad yn lleihau'r gobeithion am gytundeb, gan gynnwys **Süddeutsche Zeitung** yn yr Almaen.

2.3. Gweithredu'r Cytundeb Ymadael

Cynhaliwyd cyfarfod o gyd-gadeiryddion Cyd-bwyllgor y DU-UE ar 7 Rhagfyr i drafod gweithredu'r Cytundeb Ymadael, gan gynnwys Protocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon. Yn dilyn y cyfarfod, fe wnaeth **datganiad ar y cyd** gyhoeddi bod cytundeb wedi'i lunio mewn egwyddor ar 'bob mater', gan gynnwys Protocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon. Cyfeiriwyd yn benodol at y canlynol:

- Mannau Rheoli Ffiniau/Mannau Mynediad yn benodol ar gyfer gwiriadau ar anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion deilliedig,
- datganiadau allforio;
- cyflenwi meddyginiaethau;
- cyflenwi cigoedd wedi'u hoeri, a chynhyrchion bwyd eraill i archfarchnadoedd; ac
- eglurhad ar gymhwyso cymorth gwladwriaethol o dan delerau'r Protocol.

Daethpwyd i gytundeb hefyd ynglŷn â'r penderfyniadau y mae'n rhaid i'r Cydbwyllgor eu gwneud cyn 1 Ionawr 2021. Y rhain yw:

- ◇ Trefniadau ymarferol ynglŷn â phresenoldeb yr UE yng Ngogledd Iwerddon pan fydd awdurdodau'r DU yn gweithredu gwiriadau a rheolaethau o dan y Protocol
- ◇ Pennu meini prawf ar gyfer ystyried nwyddau "ddim mewn perygl" o ddod i mewn i'r UE wrth symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon
- ◇ Eithrio cymorthdaliadau amaethyddol a physgodfeydd o reolau cymorth gwladwriaethol
- ◇ Cwblhau rhestr cadeiryddion y panel cyflafareddu ar gyfer y mecanwaith setlo anghydfodau fel y gall y panel cyflafareddu ddechrau gweithredu y flwyddyn nesaf
- ◇ Cywiro gwallau a hepgoriadau yn Atodiad 2 y Protocol.

Bydd pumed cyfarfod y Cyd-bwyllgor yn cael ei gynnal yn y dyddiau nesaf, lle caiff y cytundeb ei fabwysiadu'n ffurfiol.

Bil Marchnad Fewnol y DU

Yng ngoleuni'r cytundeb uchod, cadarnhaodd Llywodraeth y DU y byddai'n dileu cymalau 44, 45 a 47 o Fil Marchnad Fewnol y DU ac ymrwymodd i beidio â chyflwyno darpariaethau tebyg yn ei Bil Trethiant.

Cefndir

Mewn **datganiad** a gyhoeddwyd ar 7 Rhagfyr, fe wnaeth Llywodraeth y DU nodi cynigion ar y defnydd posibl o gymalau yn ei Bil Marchnad Fewnol, pe bai'r Cydbwyllgor yn dod i ddatrysiaid i'r trafodaethau parhaus. Cynigiodd Llywodraeth y DU y byddai:

- ◇ Yn dileu cymal 44, sy'n ymwneud â datganiadau allforio a gweithdrefnau ymadael eraill; ac

◇ Yn 'diffodd' cymalau 45 a 47, fel eu bod yn cael eu defnyddio dim ond pan fydd hynny'n cyd-fynd â hawliau a rhwymedigaethau'r DU o dan gyfraith ryngwladol.

Mae cymalau 44, 45 a 47 wedi'u crynhoi isod:

Mae cymal 44 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidog mewn perthynas â'r gweithdrefnau neu ffurfioldebau eraill sy'n gymwys i nwyddau, wrth symud o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr, p'un a yw'r gweithdrefnau hyn wedi'u nodi ym Mhrotocol Gogledd Iwerddon neu fel arall. Gall y pwerau gwneud rheoliadau anghymhwysu gweithdrefnau o'r fath neu addasu'r ffordd y cânt eu cymhwysu, neu gallant ddatgan neu ailddatgan a yw gweithdrefn yn gymwys ai peidio.

Mae cymal 45 o'r Bil yn ymwneud ag Erthygl 10 o Brotocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon ar gymorth gwladwriaethol. Mae cymal 45 yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol anghymeradwyo neu addasu effaith Erthygl 10, a chaiff wneud darpariaeth ynghylch dehongli Erthygl 10.

Mae cymal 47 yn darparu'n benodol bod y pwerau sydd ar gael i Weinidogion o dan gymalau 44 a 45 ac unrhyw reoliadau a wneir oddi tanynt, i'w hystyried fel bod mewn grym, er gwaethaf unrhyw anghydnawsedd neu anghysondeb â chyfraith ryngwladol neu ddomestig berthnasol, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth ym Mhrotocol Gogledd Iwerddon, unrhyw ddarpariaethau eraill yng Nghytundeb Ymadael y DU-UE neu unrhyw ddeddfwriaeth arall a nodir, gan gynnwys cyfraith yr UE, cyfraith ryngwladol ac unrhyw orchymyn, dyfarniad neu benderfyniad gan unrhyw lys neu dribiwnlys (cymal 47(8)).

Roedd y cymalau yn cynnwys mesurau pellach, sydd wedi'u crynhoi **ym mriff Ymchwil y Senedd ar y Bil.**

Mae mwy o fanylion am hynt y Bil i'w gweld isod yn adran 3.1.

3. Datblygiadau ar lefel y DU

3.1. Bil Marchnad Fewnol y DU

Yn dilyn cytundeb yn y Cydbwyllgor ar 8 Rhagfyr, cytunodd **Llywodraeth y DU** mewn egwyddor i ddileu cymalau 44, 45 a 47 o **Fil Marchnad Fewnol y DU** ar BroTOCOL Iwerddon a Gogledd Iwerddon.

Yn y cyfnod adrodd, pleidleisiodd yr Arglwyddi yn erbyn y Llywodraeth i wneud nifer o welliannau i'r Bil, gan gynnwys:

- atal yr egwyddorion mynediad i'r farchnad rhag bod yn gymwys i ofynion rheoliadol yn rhoi effaith i unrhyw benderfyniad i wyro oddi wrth reolau wedi'u cysoni y cytunwyd arnynt drwy broses y fframweithiau cyffredin;
- dileu pwerau i Weinidogion y DU yn Rhannau 1 i 3, neu ei gwneud yn ofynnol iddynt geisio cydsyniad y Llywodraethau datganoledig;
- galluogi pob un o'r Llywodraethau datganoledig i benodi aelod i Fwrdd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd;
- dileu'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddarparu cymorth ariannol; a
- dileu'r cymal cadw ar gyfer rheoli cymhorthdal (cymorth gwladwriaethol) i San Steffan.

Hefyd, gwnaeth y Llywodraeth welliannau i'r Bil, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion y DU ymgynghori ar y ffordd y maent yn arfer pwerau dirprwyedig yn y Bil, gan adrodd ar hyn a'i adolygu. Anghytunodd Tŷ'r Cyffredin â'r gwelliannau anllywodraethol a wnaed gan yr Arglwyddi ac mae'r Bil bellach yn mynd yn ôl ac ymlaen rhwng Tŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin.

3.2. Deddfwriaeth arall

Cipolwg ar Fil Perthynas yn y Dyfodol

Fe wnaeth y **Times adrodd** ar 21 Tachwedd fod Llywodraeth y DU yn paratoi bil ynghylch perthynas yn y dyfodol i weithredu unrhyw gytundeb rhwng y DU a'r UE. Cyn hyn fe ddywedodd yr Arglwydd David Frost, prif negodwr y DU, fod unrhyw gytundeb yn debygol o fod angen deddfwriaeth sylfaenol.

O fewn cymhwysedd deddfwriaethol

Cwblhaodd y **Bil Pysgodfeydd** ei hynt drwy'r Senedd a rhoddwyd Cydsyniad

Brenhinol iddo ar 23 Tachwedd.

Fe wnaeth Tŷ'r Arglwyddi drafod y **Bil Masnach** yn y cyfnod adrodd ar 7 Rhagfyr. Cynigiodd y Llywodraeth welliant i'r Bil i sefydlu'r Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth. Hefyd, pleidleisiodd yr Arglwyddi yn erbyn y Llywodraeth i wneud gwelliannau i'r Bil, gan gynnwys gosod amcanion negodi drafft gerbron y Senedd.

Un o ddibenion y Bil Masnach yw sefydlu Awdurdod Rhwymedïau Masnach y DU. Ar 30 Tachwedd, **cyhoeddodd Llywodraeth y DU** fod Oliver Griffiths wedi'i benodi'n brif weithredwr parhaol yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach o ddiwedd y cyfnod pontio.

Cwblhaodd Tŷ'r Cyffredin y gwaith o graffu ar **Fil yr Amgylchedd** yn y cyfnod pwyllgor ar 26 Tachwedd. Nid yw'r dyddiad ar gyfer y cyfnod adrodd wedi'i gyhoeddi eto.

Y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol

Cyflwynwyd y **Bil Trethiant (Ar ôl y Cyfnod Pontio)** ar 8 Rhagfyr. Mae'n gwneud darpariaethau ynghylch tollau tramor a chartref a TAW ar gyfer gweithredu Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon.

Fe wnaeth **Bil Cyfraith Ryngwladol Breifat (Gweithredu Cytundebau)** gwblhau ei daith drwy'r Senedd ac mae'n aros am Gydsyniad Brenhinol. Mae'r **Bil Gwasanaethau Ariannol** a'r **Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol** yn parhau ar eu taith drwy'r Senedd.

3.3. Cysylltiadau rhynglywodraethol a fframweithiau cyffredin

Cyfarfu **Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE)** ar 3 Rhagfyr. Mewn datganiad, **dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd** ei fod wedi pwysleisio unwaith yn rhagor fod Llywodraeth Cymru yn 'gwbl ymroddedig' i'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol ac y cytunwyd i gynyddu'r gwaith. Dywedodd ei fod wedi dadlau y dylai'r Cyd-bwyllgor barhau i gwrdd nes bod yr adolygiad wedi'i gwblhau a'i bod yn debygol y byddai'n cwrdd eto cyn y Nadolig.

O ran fframweithiau cyffredin, dywedodd:

Pwysleisiais unwaith yn rhagor hefyd yr effaith niweidiol ar y Fframweithiau Cyffredin a Bil Marchnad Fewnol y DU, sydd gerbron Senedd y DU ac anogais Lywodraeth y DU i ystyried o ddifri y

diwygiadau sylweddol a oedd wedi cael eu gwneud yn Nhŷ'r Arglwyddi i'r Bil. Tynnais sylw hefyd at ein pryderon ynglŷn â nifer o Fframweithiau penodol, gan gynnwys y rheini ar Gydabyddiaeth Gilyddol o Gymwysterau Proffesiynol, Gwasanaethau a'r Cynllun Masnachu Allyriadau.

Cyhoeddwyd y fframweithiau dros dro ar gyfer **diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid a sylweddau peryglus (cynllunio)** i graffu arnynt. **Cymerodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** dystiolaeth gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, ynghylch y **fframwaith labelu, cyfansoddiad a safonau sy'n gysylltiedig â maeth** ar 10 Rhagfyr.

3.4. Parodrwydd

Porthladdoedd a ffiniau

Adroddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ar barodrwydd Llywodraeth y DU ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Dywedodd y Pwyllgor ei fod yn parhau i fod yn bryderus iawn am y risg o darfu difrifol ac oedi wrth groesfannau byr y Sianel. Rhybuddiodd fod systemau ffiniau newydd, gan gynnwys y Gwasanaethau Symud Cerbydau Nwyddau, yn dal i fod yn y cyfnod profi, nad oedd digon o swyddogion tollau wedi'u recriwtio, ac nad oedd Llywodraeth y DU wedi rhoi digon o arweiniad i fusnesau baratoi ar gyfer gweithdrefnau tollau newydd.

Busnes a dinasyddion

Dywedodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus nad oedd Llywodraeth y DU yn gwneud digon i sicrhau y bydd busnesau a dinasyddion yn barod ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Argymhellodd y dylai'r Llywodraeth wneud y mwyaf o'r holl gyfleoedd sy'n weddill ar gyfer gwneud busnesau a dinasyddion yn barod cyn mis Ionawr a sicrhau cymorth parhaus ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon

Ym mis Tachwedd, fe wnaeth **Edwin Poots MLA, Gweinidog Amaethyddiaeth Gweithredol Gogledd Iwerddon, gadarnhau** na fyddai cyfleusterau ar gyfer gwiriadau mewn porthladdoedd yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu cwblhau cyn diwedd y flwyddyn. Dywedodd:

The development of the facilities will not be completed until the middle part of next year in terms of the programme that has been paid for by

the UK Government

They have given some money for the development of temporary facilities which will be available for the middle of December and consequently there will be facilities available for veterinarians in place at the various ports.

Yn dilyn cytundeb mewn egwyddor yn y Cyd-bwyllgor a chyflwyno'r Bil Trethiant (Ar ôl y Cyfnod Pontio), **gwnaeth Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn ddatganiad** ynghylch gweithredu'r Protocol ar 9 Rhagfyr.

Ar 7 Rhagfyr, **cyhoeddodd Llywodraeth y DU ganllawiau** i fasnachwyr ynghylch symud nwyddau i mewn ac allan o Ogledd Iwerddon o 1 Ionawr. Mae hyn yn nodi y bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi'n 'fuan' neu 'cyn gynted â phosibl' ar draws ystod o faterion, gan gynnwys symud nwyddau wrth eu cludo, symud nwyddau masnachol a phersonol mewn bagiau, a symud arian parod.

Yr economi

Mae'r **Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol** yn rhoi trosolwg o'r rhagolygon economaidd a chyllidol ddiwedd mis Tachwedd. Roedd hyn yn cyflwyno tri senario gwahanol o ran sut y byddai pandemig y coronafeirws yn datblygu:

In the upside scenario, output eventually returns to its pre-virus trajectory, but output is left permanently scarred by the pandemic in the other two scenarios, by 3 and 6 per cent respectively. All three assume a smooth transition to a free-trade agreement with the EU in the new year.

Cyflwynodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol senario hefyd lle nad oedd cytundeb perthynas rhwng y DU a'r UE ar gyfer y dyfodol. Dywedodd:

This would further reduce output by 2 per cent initially and by 1½ per cent at the forecast horizon.

3.5. Trafodaethau masnach ryngwladol

Cytundeb y DU-Japan

Ar 25 Tachwedd, trafodwyd Cytundeb y DU-Japan yn Nhŷ'r Cyffredin o dan broses graffu Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2005. **Adroddodd Pwyllgor Masnach Ryngwladol Tŷ'r Cyffredin** ar y cytundeb ar 18 Tachwedd. Croesawodd y Pwyllgor y ffaith bod y cytundeb wedi'i lofnodi a dywedodd, er na fydd y gwahaniaethau rhwng CEPA a JEEPA efallai mor helaeth ag yr honnir, bod eithriadau nodedig, yn enwedig y darpariaethau ynghylch digidol a data, a gwasanaethau ariannol.

Trafodaethau gyda'r Unol Daleithiau, Awstralia a Seland Newydd

Mewn datganiad ar 7 Rhagfyr, fe wnaeth **Liz Truss AS, yr Ysgrifennydd Masnach Ryngwladol, amlinellu cynlluniau** ar gyfer tryloywder a chraffu ynghylch cytundebau masnach arfaethedig y Llywodraeth gyda'r Unol Daleithiau, Awstralia a Seland Newydd a chael ei derbyn i'r CPTPP. Dywedodd y byddai Llywodraeth y DU yn sicrhau bod y Senedd a'r cyhoedd yn gwybod am y negodiadau drwy gyhoeddi 'adroddiadau fesul rownd', yn cyflwyno testunau cytuniadau i bwyllgorau perthnasol Senedd y DU cyn iddynt gael eu gosod, ac yn ceisio gwneud lle ar gyfer ceisiadau gan y pwyllgorau am ddadleuon.

Rhaglen Negodiadau a Chydgysylltu Parhad (y cyfeiriwyd ati gynt fel Rhaglen Parhad y Cytundeb Masnach)

Mae Llywodraeth y DU wedi llofnodi neu gytuno mewn egwyddor ar 26 cytundeb i'w cario drosodd gyda 55 o wledydd, a oedd werth £170 biliwn o fasnach ddwyochrog y DU (allforion a mewnforion) yn 2019. Mae'r negodiadau yn dal i fynd ymlaen gyda 13 o wledydd, gan gynnwys Singapore, Twrci, Fietnam a Mecsico. Mae gwefan Llywodraeth y DU yn dangos y **cynnydd a wnaed o ran cario'r cytundebau UE hyn drosodd.**

3.6. Cyllid

Yn yr Adolygiad o Wariant ar 25 Tachwedd, **cyhoeddodd Llywodraeth y DU** y byddai ei Chronfa Ffyniant Gyffredin i ddisodli cyllid yr UE yn canolbwyntio ar y lleoedd fwyaf mewn angen ar draws y DU a'r bobl fwyaf mewn angen drwy raglenni cyflogaeth a sgiliau pwrpasol. Dywedodd y byddai mwy o wybodaeth yn cael ei nodi mewn 'fframwaith buddsoddi y DU gyfan' yn y gwanwyn. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu defnyddio'r pŵer cymorth ariannol yn y Bil Marchnad Fewnol i gyflwyno'r gronfa.

3.7. Y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Cyhoeddwyd ystadegau chwarterol ar gyfer **ceisiadau i'r cynllun preswyllo'n sefydlog i ddinasyddion yr UE** hyd ddiwedd mis Medi.

Cymeradwyodd Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin **benodiad** Syr Ashley Fox fel Cadeirydd yr Awdurdod Monitro Annibynnol ar weithrediad y DU o rannau hawliau dinasyddion y Cytundeb Ymadael. Daw'r **Awdurdod Monitro Annibynnol** i rym o ddiwedd y cyfnod pontio ac mae wedi'i leoli yn Abertawe.

4. Datblygiadau yng Nghymru

4.1. Bil Marchnad Fewnol y DU

Trafododd y Senedd drafod a ddylid rhoi cydsyniad i Fil Marchnad Fewnol y DU ar 8 a 9 Rhagfyr. Pleidleisiodd y Senedd **o 36 i 15** o blaid gwrthod rhoi cydsyniad.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol** ar 3 Rhagfyr. Mae'r Memorandwm yn rhestru'r gwelliannau a wnaed i'r Bil wrth iddo fynd drwy Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi y mae Llywodraeth y DU yn credu sydd angen cydsyniad y Senedd iddynt. Dywed:

Nid yw ein barn ar natur ddiangen a niweidiol y Bil wedi newid.

Dywed Llywodraeth Cymru, hyd yn oed pe bai gwelliannau Tŷ'r Arglwyddi yn cael eu cadw, y byddai angen i Senedd y DU ddiwygio'r Bil i gael gwared ar ei statws fel deddfiad gwarchoddedig – nad oes modd i'r deddfwrfeydd datganoledig ei addasu – er mwyn iddi allu argymhell cydsyniad.

4.2. Trafodaethau'r UE

Yn ei ddatganiad ar gyfarfod y Cydbwyllgor Gweinidogol (Negodiadau'r UE) ar 3 Rhagfyr, **dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd ei fod wedi:**

[g]alw unwaith yn rhagor ar Lywodraeth y DU i ddwysáu ei hymdrechion i sicrhau cytundeb masnach cynhwysfawr ac i fynegi ein siom unwaith eto nad yw'r Gweinyddiaethau Datganoledig wedi cael cymryd unrhyw ran ystyrlon yn y negodiadau hyn – roedd hawl gennym ddisgwyl i gael gwneud hynny.

4.3. Trafodaethau masnach ryngwladol

Cytundeb Masnach Rydd y DU-Japan

Ar 3 Tachwedd, mewn **datganiad ysgrifenedig yn rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau ar ddatblygiadau o ran trafodaethau rhyngwladol**, croesawodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd y ffaith bod cytundeb y DU-Japan wedi'i lofnodi. Wedi hynny, fe wnaeth Llywodraeth Cymru **gyhoeddi adroddiad** ar y cytundeb. Mae hwn yn rhoi crynodeb o effaith y cytundeb ar sectorau allweddol yng Nghymru.

Ar 19 Tachwedd, cafodd yr Aelodau **adroddiad a gwblhawyd gan Arsyllfa Polisi Masnach y DU** ar gytundeb y DU-Japan.

Cytundebau parhad masnach

Mae'r cytundebau parhad y mae Llywodraeth y DU yn ceisio'u cario drosodd yn cyfrif am bron £5.9 biliwn, ac 16 y cant o gyfanswm masnach Cymru (allforion a mewforion) mewn nwyddau yn 2019. Bydd y cytundebau parhad masnach a lofnodwyd neu y cytunwyd arnynt mewn egwyddor hyd yn hyn yn rhoi parhad ar gyfer dros £3.83 biliwn o fasnach ddwyochrog mewn nwyddau i Gymru, a dros 65 y cant o werth masnach â gwledydd yr aeth Llywodraeth y DU ati i sicrhau cytundebau â nhw. Mae hyn yn golygu y gallai bron £2.06 biliwn o gyfanswm y fasnach rhwng Cymru a gwledydd y tu allan i'r UE ddigwydd ar delerau Sefydliad Masnach y Byd o 1 Ionawr 2021 (gyda rhai eithriadau ar gyfer masnach â gwledydd sy'n datblygu), oni bai bod cytundebau newydd ar waith erbyn diwedd y cyfnod pontio.

Yn ei **dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 5 Tachwedd**, dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd, os na fydd unrhyw gytundebau parhad yn cael eu cario drosodd cyn diwedd y cyfnod pontio, y bydd Llywodraeth Cymru drwy ei thimau allforio yn cysylltu'n gyflym â busnesau y mae hyn yn effeithio arnynt fwyaf agored er mwyn darparu cymorth.

Fe wnaeth y **Gweinidog Pontio Ewropeaidd groesawu** Cytundeb Masnach Rydd y DU-Canada mewn datganiad ar 30 Tachwedd, gan ddweud y byddai'n 'sicrhau y bydd y trefniadau masnachu presennol yn parhau heb fawr o newid'.

4.4. Parodrwydd

Llywodraeth Cymru

Ar 11 Tachwedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Chynllun Gweithredu Diwedd y Cyfnod Pontio**. Ar 17 Tachwedd, ysgrifennodd **Archwilydd Cyffredinol Cymru at y Pwyllgor** ynghylch y mater o baratodau ar gyfer diwedd cyfnod pontio Brexit. Dywed y llythyr fod Llywodraeth Cymru wedi nodi mwy na £50 miliwn o weithgaredd i'w gyflawni fel rhan o'i Chynllun Gweithredu Diwedd y Cyfnod Pontio nad yw wedi'i ariannu eto.

Yn ei ddatganiad ar gyfarfod y Cydbwyllgor Gweinidogol (Negodiadau'r UE) ar 3 Rhagfyr, **dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd** ei fod wedi:

[pwysu] am ragor o sicrwydd ynghylch materion fel cyflenwi nwyddau hanfodol, a pha mor debygol ydoedd y deuir i gytundeb mewn perthynas â digonolrwydd data yn ogystal â'r mesurau macro-economaidd y byddai eu hangen, pe na fyddai cytundeb.

Mewn datganiad ar 3 Rhagfyr, **dywedodd Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd**, fod 'lefel mor uchel â phosibl o sicrwydd inni ar barhad cyflenwadau meddyginiaeth a chynnyrch meddygol' cyn i'r cyfnod pontio ddod i ben.

Porthladdoedd a ffiniau

Gwnaeth Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth **ddatganiad ysgrifenedig** ar 7 Rhagfyr yn amlinellu cynlluniau wrth gefn Llywodraeth Cymru ar gyfer tarfu ym Mhorthladd Caerdybi wrth baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Nod y cynllun yw lliniaru'r effaith bosibl yn sgil oedi i gludwyr sy'n teithio i Iwerddon pan fydd yr UE yn cymhwyso rheolaethau ffiniau newydd ar draffig y DU ar 1 Ionawr 2021.

Mae **Model Gweithredu Ffiniau** Llywodraeth y DU wedi nodi'r angen am ddau safle mewndirol newydd yng Nghymru er mwyn ymdrin â ffurfioldebau newydd y ffiniau. Fe wnaeth **y BBC ddyfynnu llefarydd o Gyllid a Thollau EM ar 2 Rhagfyr** yn dweud bod Llywodraeth y DU mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a Roadking er mwyn prynu safle ger Caerdybi i'w ddefnyddio fel lleoliad Clirio Mewndirol. Nid yw'n glir a yw safle wedi'i nodi ar gyfer de-orllewin Cymru.

Yn ei dystiolaeth i **Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 25 Tachwedd**, cadarnhaodd Ken Skates AS, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, fod safleoedd yn Warrington a Birmingham yn cael eu hystyried fel safleoedd dros dro ar gyfer gwiriadau ar nwyddau sy'n cyrraedd Caerdybi. Yn ei lythyr at y Pwyllgor, dywed yr Archwilydd Cyffredinol y bydd paratoi'r ddau safle mewndirol newydd yng Nghymru mewn pryd yn heriol.

Mae DFDS, gweithredwr fferi o Ddenmarc, wedi cyhoeddi y bydd yn cychwyn llwybr fferi newydd rhwng Rosslare a Dunkirk o 1 Ionawr i gynniig cludiant uniongyrchol a di-bapur rhwng gwledydd yr UE i lorïau a'u gyrwyr.' Bydd hyn yn caniatáu i gludwyr sy'n teithio i Ogledd Ffrainc osgoi Prydain Fawr a phorthladdoedd yn ne-orllewin Cymru.

Parodrwydd busnesau

Ar 11 Tachwedd, **ysgrifennodd Ken Skates AS, Gweinidog yr Economi**, at fusnesau yng Nghymru, yn ofyn iddynt gymryd camau ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, gan gynnwys:

- gwirio a oes angen trwydded arnynt i fewnforio neu allforio eu nwyddau neu a fydd newidiadau i safonau labelu a marcio;
- sicrhau bod codau nwyddau cywir yn cael eu defnyddio;

- sicrhau bod Incoterms (telerau safonol mewn contractau ar gyfer cyfrifoldeb am nwyddau wrth iddynt gael eu cludo) yn cael eu trafod yn ystod y cam contract;
- cofrestru ar gyfer y Cynllun Cymorth i Fasnachwyr os ydynt yn symud nwyddau rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Ar 26 Tachwedd, **cymerodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig** y Senedd dystiolaeth gan gynrychiolwyr y sectorau amaethyddiaeth, pysgodfeydd a'r amgylchedd ynghylch diwedd y cyfnod pontio a phandemig y coronafeirws.

4.5. Cyllid

Ar 18 Tachwedd, dywedodd y **Gweinidog Pontio Ewropeaidd** fod Llywodraeth Cymru yn 'barod i ailgychwyn' rhaglen o fuddsoddiad rhanbarthol ar gyfer cyllid ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Galwodd ar Lywodraeth y DU i 'gamu ymlaen hefyd, a chyflawni eu haddewid hir-ddisgwyliedig am gyllid, fel y gallwn ni ddarparu buddsoddiadau newydd yn gynnar y flwyddyn nesaf'. Bwriad Llywodraeth y DU yw defnyddio'r pŵer cymorth ariannol yn y Bil Marchnad Fewnol i wario arian mewn meysydd datganoledig.

4.6. Deddfwriaeth

Mewn ymateb i gwestiwn yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Tachwedd, dywedodd y **Gweinidog Pontio Ewropeaidd**:

Nid ydym yn gwybod eto beth fydd canlyniad y trafodaethau rhwng Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd, yn amlwg, ond os cytundeb fydd y canlyniad, mae'n debyg y bydd angen gweithredu deddfwriaeth, ac mae'n debyg y bydd hynny—mae'n debyg, byddwn yn awgrymu—yn gofyn am gydsyniad y Senedd hon os yw'n ymwneud â materion sydd fel arall wedi'u datganoli.

Yn ei ddatganiad ar gyfarfod y Cydbwyllgor Gweinidogol (Negodiadau'r UE) ar 3 Rhagfyr, **dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd** ei fod wedi '[pwysu] ar Lywodraeth y DU i rannu â'r Gweinyddiaethau Datganoledig, a hynny ar y cyfle cyntaf posibl, fersiwn ddrafft o unrhyw ddeddfwriaeth y byddai ei hangen i ddod â Chytundeb i effaith'.

Fe wnaeth **Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad** y Senedd barhau i drafod is-ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer diwedd y cyfnod pontio.